



Dyddiad cyhoeddi: 3 Tachwedd 2016

Busnesau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 17 Hydref 2016, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 11 Hydref 2016, a eglurwyd gennych ar 17 Hydref 2016.

Eich cais gwreiddiol oedd:

Nodwch fanylion yr holl fusnesau sydd wedi cael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru sy'n destun adolygiad neu ymchwiliad ar hyn o bryd - neu a fu'n destun adolygiad neu ymchwiliad yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

A allwch enwi pob busnes a rhoi'r union swm o arian a gafodd pob busnes gan Lywodraeth Cymru.

Os na allwch ddarparu enwau'r busnesau oherwydd sensitifrwydd masnachol, yna nodwch fanylion nifer y busnesau, gan gynnwys faint o gymorth ariannol a gawsant ar y cyd.

Nodwch hefyd y rheswm pam y mae pob busnes yn destun adolygiad neu ymchwiliad.

Eglurwyd eich cais fel a ganlyn:

Mae a wnelo fy nghais â gwaith archwilio y mae'r Archwilydd Cyffredinol, a'i swyddfa, wedi ymgymryd ag ef mewn perthynas â chyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i fusnesau ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16, os na allwch ddarparu unrhyw wybodaeth am y blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gennym y wybodaeth ganlynol o flwyddyn ariannol 2015-16 sy'n cyfateb i ddisgrifiad eich cais:

Enw'r cwmni – Old Bell 3

Cawsom ohebiaeth gan Aelod o'r Cynulliad ac yn y llythyr hwnnw nodwyd bod Old Bell 3 wedi cael y symiau canlynol gan Lywodraeth Cymru (fel y cadarnhawyd mewn ymateb Cynulliad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog) ar gyfer y tair blwyddyn ariannol flaenorol ar adeg ysgrifennu:

Arddangosyn 1: tabl ffigurau

2012/13	2013/14	2014/15
£567,129.30	£587,792.00	£686,693.70

Roedd yr Aelod o'r Cynulliad yn pryderu bod y symiau a wariwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnig gwerth gwael am arian. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth ychwanegol am arian a roddodd Llywodraeth Cymru i Old Bell 3.

Enw'r cwmni – Ideoba

Cawsom ohebiaeth gan Aelod o'r Cynulliad a gododd bryderon am rôl cynghorydd Gweinidogol mewn perthynas ag arian a fyddai o bosibl yn cael ei roi i Ideoba. Mae gwybodaeth gennym sy'n nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi swm o £176,297 i Ideoba. Nid oes gennym unrhyw wybodaeth ar gofnod yn datgan ai dyna'r union gyfanswm a gafodd Ideoba.

Gwnaethom gyhoeddi'r adroddiadau canlynol yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 sy'n berthnasol i'ch cais:

[Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio](#) – rwyf wedi cynnwys yr adroddiad hwn am Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, er y dylid nodi mai Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig oedd y Gronfa, wedi'i chofrestru gyda Thŷ'r Cwmniau ac, i bob pwrpas, o dan berchenogaeth Iwyr Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 2 o'r adroddiad yn arbennig).

[Llywodraeth Cymru yn caffael a pherchnogi Maes Awyr Caerdydd](#) – mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i Cardiff International Airport Ltd (gweler paragraffau 4 a 24 yn arbennig).

[Sefydlu ac arolygu Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru](#) – ymrwymodd Llywodraeth Cymru £50 miliwn i Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru ac mae'r adroddiad yn nodi'r taliadau a wnaed i Reolwr y Gronfa a chymorth ariannol a roddwyd i ReNeuron plc (gweler Atodiad 1 a thudalennau 26-27 o'r adroddiad yn arbennig).

Gweler hefyd y dolenni canlynol am adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol hyd yn hyn sy'n berthnasol i'ch cais gwreiddiol am wybodaeth:

[Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd](#) – mae paragraff 2 o'r adroddiad yn nodi bod Kancoat Ltd wedi cael cyfanswm o £3.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

[Buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwasanaethau trên a seilwaith y rheilffyrdd](#) – mae'r adroddiad yn cynnwys manylion y symiau ariannol a dalwyd i Network Rail mewn perthynas â seilwaith (gweler Rhan 2 o'r adroddiad yn arbennig)

Yn ogystal, gweler isod ddolenni i adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n berthnasol i'ch cais gwreiddiol am wybodaeth:

[Arian cyhoeddus ar gyfer Canolfan Cywain, Y Bala](#) – gweler Atodiad 1 yn arbennig.

[Arian Cyhoeddus ar gyfer Fferm Bysgod Penmon](#) – gweler Atodiad 1 yn arbennig.

Mae casglu'r ymateb hwn ynghyd wedi cymryd tua chwe awr o waith (ar y cyd). Felly gellir ymgymryd â gwaith casglu pellach cyn cyrraedd y 'terfyn priodol' – dwy flwyddyn ariannol arall fwy na thebyg. A fyddoch chi'n rhoi gwybod i mi p'un a hoffech i mi gasglu rhagor o wybodaeth ynghyd, ac, os felly, nodwch pa flynyddoedd yr hoffech i mi ymchwilio iddynt. Dylwn egluro hefyd, mewn sawl achos, pan fydd ein gwaith archwilio yn ystyried arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i fusnesau, y bydd gwaith o'r fath yn cael ei gyhoeddi fel rhan o adroddiad.

Mewn ymateb i'ch cais, rwyf wedi defnyddio'r diffiniadau canlynol:

Diffiniad o fusnes – cwmnïau ac endidau eraill sy'n gweithredu er elw.

Diffiniad o gymorth ariannol – heb gynnwys trafodion cytundebol cyffredin.

Efallai yr hoffech wybod hefyd fod yr Archwilydd Cyffredinol wedi hysbysu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn ei adroddiad diweddar ar Lywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd, ei fod yn ystyried cynnal archwiliad gwerth am arian ehangach o'r cymorth a roddir gan Lywodraeth Cymru i fusnesau.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau. Fodd bynnag, os hoffech gwyno am y ffordd yr wyf wedi ymdrin â'ch cais, anfonwch e-bost ataf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir